**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldebau, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

5 Tachwedd 2018

Annwyl John,

Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ysgrifennu atoch fis diwethaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 17 Awst ynghylch yr adroddiad "Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel". Nododd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei ymateb y byddwn yn darparu rhagor o fanylion mewn perthynas ag argymhellion yr adroddiad o ran caffael (argymhellion 14-16).

Diben yr adolygiad o gaffael oedd pennu blaenoriaethau rhanddeiliaid a fyddai'n sail i gynigion y sefydliad o safbwynt cefnogi sector cyhoeddus Cymru i elwa i'r eithaf ar ei wariant blynyddol o £6 biliwn ar gaffael. Mae gan gaffael swyddogaeth bwysig iawn o safbwynt diogelu dyfodol Cymru ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Cyhoeddais ddatganiad ar 5 Medi er mwyn nodi bod yr adolygiad o gaffael wedi dod i ben ar 5 Medi. Nododd y datganiad y byddai'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) yn dod i ben ar ei ffurf bresennol, ac y byddai yn canolbwyntio ar bortffolio llai o gontractau cenedlaethol. Cyhoeddais hefyd y byddai uned datblygu a chyflenwi polisi cenedlaethol yn cefnogi cyrff cyhoeddus i wella eu gallu i wneud defnydd gwell o brosesau caffael er mwyn cyflawni blaenoriaethau llesiant ar lefel ranbarthol a lleol.

Mae swyddogion wrthi'n datblygu cynlluniau i gyfyngu ar gwmpas y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Bydd yr uned datblygu polisi yn cydweithio â rhanddeiliaid er mwyn datblygu gweledigaeth a strategaeth newydd ar gyfer caffael a fydd yn canolbwyntio ar gyflenwi blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Bydd datblygu'r strategaeth newydd hon yn creu sail i'r rhaglen datblygu sgiliau a'r gwiriad ffitrwydd i gaffael ar gyfer y dyfodol. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid fel rhan o'r adolygiad y byddai rhaglen newydd ar gyfer gwiriad ffitrwydd i gaffael a sgiliau yn gwbl allweddol er mwyn gwella'r gallu i ddefnyddio dulliau blaengar a fydd yn sicrhau'r budd mwyaf posibl o brosesau caffael. Bydd y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a'r polisi Manteision Cymunedol yn parhau'n agweddau canolog ar ein dulliau ar gyfer sicrhau bod prosesau caffael yn sbarduno llesiant cymdeithasol ac economaidd. Dylai fod yn ofynnol i fusnesau sy'n awyddus i fod yn rhan o brosesau caffael cyhoeddus gyflawni o ran

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

y ddwy fenter pwysig hyn. Bydd rhaglen y dyfodol ar gyfer sgiliau a gwiriad ffitrwydd i gaffael yn ystyried y ffordd orau o gyflawni'r dulliau hyn fel eu bod mor effeithiol â phosibl.

Yn y cyfamser, mae pwyslais o hyd ar annog mwy o bobl i fabwysiadu polisi'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol, y polisi Manteision Cymunedol a'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd.

Rydym wedi cynorthwyo 127 o sefydliadau i ymrwymo i'r Cod, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y sector Addysg Uwch, heddlu Cymru ac un ar ddeg o awdurdodau lleol Cymru. Rydym wrthi'n cydweithio â'n partneriaid cymdeithasol er mwyn cynyddu nifer y bobl ar draws Cymru sy'n ymrwymo i'r Cod. Byddwn yn cyflenwi prosiectau newydd a sylweddol i Gymru drwy Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Cymru. Caiff y buddsoddiad hwn ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cyfleoedd o ran swyddi a hyfforddiant a sbarduno arferion cyflogaeth moesegol a thaliadau teg drwy ein cadwyni cyflenwi, gan sicrhau manteision gwirioneddol i bobl a busnesau ar draws Cymru.

Gall defnydd blaengar o gaffael o fewn y sector cyhoeddus wneud gwahaniaeth o fewn rhai o gymunedau tlotaf Cymru. Mae adnoddau pwysig fel y polisi Manteision Cymunedol a'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd yn helpu cyrff cyhoeddus i bennu cyfleoedd ar gyfer sefydlu a mesur cydraddoldeb drwy brosesau caffael. Trwy'r dull cydweithredol o ddatblygu gweledigaeth a strategaeth newydd ar gyfer caffael byddwn yn ystyried sut y gallwn atgyfnerthu'r dulliau hyn ymhellach.

Nod y cyfeiriad newydd a gyhoeddwyd yn fy natganiad yw cyflawni mwy drwy brosesu caffael a chefnogi twf cyfoeth ar draws pob rhan o Gymru. Bydd argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldebau, Llywodraeth Leol a Chymunedau sef "Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel" yn rhoi pwyslais ar sicrhau bob pobl o bobl rhan o Gymru'n elwa i'r eithaf ar brosesau caffael.

Yn gywir,

Mark.

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance